Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2018

Annwyl Mike

P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers mis Mai 2017.

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth gyda Gill Bell, Pennaeth Cadwraeth Cymru, Cymdeithas Cadwraeth Forol yn ein cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth. Yn y cyfarfod hwnnw, gwnaethom hefyd ystyried am y tro cyntaf ddeiseb P-05-803. Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro ... mae'n bryd cyflwyno treth!

Cytunom y dylwn anfon manylion y ddwy ddeiseb atoch chi fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig er gwybodaeth, a gofyn a oes gan eich Pwyllgor unrhyw gynlluniau i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â phlastigau untro.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd i ofyn pryd y cyhoeddir yr astudiaeth ymchwil Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a gofyn am gopi unwaith y bydd ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am ystyriaeth y Pwyllgor o'r deisebau, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig a gweithredoedd y cytunwyd arnynt, ar gael ar wefan y Cynulliad:

P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb trwy e-bost at y tîm clercio yn *SeneddDeisebau@cynulliad.cymru*.

Yn gywir

David J Rowlands AC
Cadeirydd